



Aseiniadau fideo

Mae fideo yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel cyfrwng nid yn unig i ddarparu cynnwys o ddarlithwyr i fyfyrwyr ond hefyd fel arddull i fyfyrwyr arddangos eu dealltwriaeth a dysgu. Y dull mwyaf effeithlon o gyflwyno fideo i'ch tiwtor yw trwy OneDrive. Mae'r canllaw hwn yn arddangos sut i recordio a llwytho fideo i OneDrive ar iPhone neu iPad. Er mwyn danfon i fideo o OneDrive i'ch tiwtor mi fydd angen Rhannu - gweler y canllaw ar wahân **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.

Cam 1:

I ddefnyddio OneDrive ar eich dyfais iOS mi fydd angen arnoch yr **ap OneDrive**. Gallwch ei lawrlwytho o'r App store. Mi fydd angen i chi fewngofnodi i'r ap OneDrive cyn gallu storio cynnwys yno. Unwaith mae'r ap wedi'i osod ar eich dyfais, agorwch yr ap a mewngofnodwch gan ddefnyddio eich manylion_mewngofnodi Prifysgol. Bydd angen i chi gwblhau dwy sgrin mewngofnodi fel a gweler ar y dde.

Cam 2:

Recordiwr eich fideo can ddefnyddio'r ap **Camera**. Ar ôl gorffen, ewch i'r fideo yn eich ap **Photos** a'i agor. Bydd eiconau yn ymddangos ar waelod y sgrin – dewiswch **Share** ac fe welwch nifer o ffyrdd o rannu'r ffeil. Os ydy OneDrive yn ymddangos, dewiswch hwnnw. Os nad ydy'n ymddangos dewiswch **More**. Yna fe welwch nifer oapiau gyda swithsis. Dewch o hyd i **OneDrive** a'i droi ymlaen, yna **Done** ar y dde uchaf. Nawr fe ewch yn ôl i'r sgrin_rhannu ble fydd OneDrive yn ymddangos yn yr opsiynau rhannu. Dewiswch **OneDrive**.

Cam 3:

Mae gennych nawr y dewis o arbed y ffeil yn y prif OneDrive neu mewn ffolder. I storio eich fideo yn y prif ffolder OneDrive dewiswch **Upload to OneDrive**. I'w arbed mewn ffolder penodol, dewiswch **Files** yna'r ffolder o'ch dewis ac yna **Upload Here**. Byddwch yn gweld y ffeil yn llwytho i'r ffolder yn fyw.

Cam 4:

Mi fydd eich fideo nawr yn eich OneDrive, ble bynnag yr ewch iddo - ar eich ffôn, drwy MyDay neu unrhyw ddull arall. Am gymorth ar sut i rannu ffeil o OneDrive gweler ein canllaw **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.

